

Digwyddiad Arbennig i rieni ac unrhyw un sy'n ymwneud â gwaith plant a ieuenctid

Mae ambell un wedi dangos diddordeb i fynd i Gapel Sure Hope, The Interchange, Lôn Abergele, Hen Golwyn LL29 9YF ar **nos Fawrth, Mehefin 4ydd am 7.30** pan fydd Taith Haf 2013 y mudiad Care for the Family yno. Mae rhai ohonom wedi bod mewn nosweithiau gan Care for the Family yn y gorffennol ac wedi cael noson fuddiol a hwyliog dros ben yng nghwmni Rob Parsons. Y tro hwn, **“Getting your kids through church without them ending up hating God”** fydd y teitl ac ef yw un o'r siaradwyr y tro hwn hefyd. Os ydych am ymuno â ni, mae angen i chi archebu tocyn ymlaen llaw – pris: £5. Er mwyn sicrhau tocyn, cysylltwch â Mair **cyn diwedd mis Ebrill**, os gwelwch yn dda: (01745) 870632 / 07900 627536 / mair@eglwysibroaled.com.

I ddod

- **Sasiwn Genhadol Chwiorydd y Gogledd** yng Nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug, dydd Mawrth, Mai 7fed. Bydd cyfarfod y prynhawn am 2.00 a'r siaradwyr fydd Sarah Morris ac Elinor Owen, a chyfarfod yr hwyr am 5.30 gyda Carys Humphreys, Taiwan yn annerch. Bydd paned o de ar gael yn Festri Capel Bethesda wedi oedfa'r pnawn. Croeso cynnes i bawb.
- **Wythnos Feblaidd Keswick** – Esea: Proffwyd i'n hoes?" yn Eglwys y Bedyddwyr, Great Ormes Road, West Shore, Llandudno LL30 2AR (Mai 7fed – 10fed). **Cyfarfod Cymraeg Arbennig** pnawn Mercher am 2.30 gyda'r Parch Euros Wyn Jones yn pregethu. Cyfarfodydd eraill bore Mercher, lau a Gwener am 10.30; a nos Fawrth, Mercher a lau am 7.30.
- **Darlith ar Thomas Jones, Dinbych ac achos yr Efengyl yn yr ardal** nos lau Dyrchafael, Mai 9fed yn Llansannan am 7.30 gydag Andras Iago yn darlithio.
- Cyfarfod o waith **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** am 4.30 a **Chyfarfod Gwobrwy'r Ysgol Sul** am 6.00 yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan nos Wener, Mai 10fed.
- **Diwrnod Dynion (15+)** “Dafydd: Y Da, y Drwg a'r Erchyll” yng Ngholeg y Bala dydd Sadwrn, Mehefin 8fed. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: colegybala@ebcpcw.org.uk / 01678 520565. Cost: £25 yn cynnwys cinio.
- **Diwrnod/Penwythnos Genod (15+)** yng Ngholeg y Bala, Mehefin 14eg–15fed. Nos Wener: Cath Woolridge & SOW – noson o gerddoriaeth, tystiolaeth a chymdeithas. Dydd Sadwrn: Diwrnod i ymlacio, mwynhau cymdeithas ac i ddysgu am yr Iesu yng nghwmni Sarah Morris. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: colegybala@ebcpcw.org.uk / 01678 520565. Cost: £40 am y nos Wener a dydd Sadwrn fydd yn cynnwys gwely a brecwast a chinio dydd Sadwrn, neu £25 am y dydd Sadwrn yn unig fydd yn cynnwys cinio ym Mhlas yn Dref.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 21^{ain} Ebrill 2013

Darlleniad y Dydd
Deuteronomium 34:1–8
(BCND tud.196 / BCN: tud.179)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Croeso cynnes i oedfaon y dydd heddiw! Diolchwn i Dduw am gyfle arall i'w geisio a gweddiwn ar i'w Ysbryd Glân ein harwain, ein cysuro a'n hargyhoeddi i bwysu ar Grist, yr un y mae holl ysblander Duw yn disgleirio ohono. (Hebreaid 1:3 Beibl.net)

Mae'r wythnos hon wedi bod yn un ddadleuol iawn yn y byd gwleidyddol wrth i angladd cyn Brif Weinidog Prydain, Margaret Thatcher gael ei chynnal yn Llundain ddydd Mercher. Yn anffodus, tueddu i fynd dros ben llestri wnaeth y naill ochr a'r llall ynglŷn â Thatcher, gyda'r ffaith syml fod teulu'n galaru yn tueddu i fynd yn angof. Yn naturiol, wrth i gyn-arweinydd farw mae llawer yn ceisio cloriannu dylanwad yr arweinydd hwnnw gan ystyried pa fath o etifeddiaeth y mae wedi ei adael. Yw pethau'n well neu'n waeth yn sgil yr arweinydd hwnnw, a beth sy'n rhaid i'w olynwyr ei wynebu?

Gwelwn etifeddiaeth yn cael ei haddo i'r dyfodol yn ein darlleniad heddiw hefyd, wrth i Foses farw a'r Arglwydd ddweud wrtho beth oedd i ddilyn. Moses oedd yr un a ddefnyddiodd yr Arglwydd i ryddhau ei bobl o gaethiwed erchyll yng ngwlad yr Aifft gan eu harwain i wlad well. Ond er cystal arweinydd oedd Moses (anghymharol yn ôl Deuteronomium 34:10-12) anghyflawn fu ei ymdrech gan na chafodd fynd i mewn i wlad yr addewid ei hun. Gwnaeth weithredoedd rhyfeddol gan fod yn gysgod inni o'r hyn y byddai Crist yn ei wneud fel cyfryngwr rhwng dyn a Duw, ond eto oherwydd ei anffyddlondeb ni chafodd fynd i mewn i wlad yr addewid – yn hytrach, rhoddwyd y fraint honno i'w ddisgynyddion. Pam? Oherwydd ffyddlondeb ein Duw graslon, ac oherwydd Ei fod wastad yn cyflawni'r addewidion a roddodd. I Dduw y bo'r diolch fod yr Israeliaid wedi cael eu rhyddhau o'r Aifft ac wrth gwrs defnyddiodd Moses yn helaeth yn y broses honno. Ond ble methodd Moses, llwyddodd Crist, trwy ei fywyd, marwolaeth a'i atgyfodiad i ddod â'i bobl i wlad yr addewid yn dragywydd. Gwlad heb farwolaeth na galar na llefain na phoen, ble bydd “ef yn preswyllo gyda hwy, byddant hwy yn bobloedd iddo ef, a bydd Duw ei hun gyda hwy, yn Dduw iddynt.” (Datguddiad 21:3-4) Felly wrth i ni ystyried methiannau a llwyddiannau ein harweinwyr, cofiwn mai Iesu yw'r unig un sydd â record 100% ym mhopeth a wnaeth a'r unig Un sy'n haeddu clod diderfyn gan bawb. Cofiwn eiriau Philipaid 2:9-11 “Am hynny tra-dyrchafodd Duw ef, a rhoi iddo'r enw sydd goruwch pob enw, fel wrth enw Iesu y plygai pob glin yn y nef ac ar y ddaear a than y ddaear, ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad.”

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mercher
lau • Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod.
• **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
• **Astudiaeth Feiblaidd** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa Arbennig i'r Fro** yn Llansannan heno am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd y Parch Hywel Meredydd yn pregethu ac yn rhannu ychydig am ei waith fel Cyfarwyddwr Tearfund. Croeso cynnes i bawb.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch David Owens yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10. Bydd y **Pwyllgor Cymorth Cristnogol** yn cyfarfod yn Ystafell y Blaenoriaid heno am 7.30.
- lau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Hywel Meredydd yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch David Owens yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Hywel Meredydd yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Bydd Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Groes.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Cofion

- Anfonwn ein cofion at Glyn Jones (Nantglyn) sydd erbyn hyn wedi symud i'r Inffirmari. Parhawn i gofio amdano ef a'r teulu a gofynnwn i Dduw eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni. Cofiwn hefyd am Megan Evans (Llansannan) sydd wedi cael anffawd a thorri ei braich, ac eraill o'n plith sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn profi daioni Duw yn eu cynnal a'u gwarchod.
- Llongyfarchiadau i Erina Roberts, Simdde Hir sydd wedi ei dewis i wasanaethu fel blaenor yng Nghapel Llanefydd. Diolchwn i Dduw amdani a bydded Ei fendith ar yr eglwys. Bydd Erina yn cael ei hordeinio yn flaenor yn yr Henaduriaeth mewn oedfa arbennig yng Nghapel y Rhiw, Pwllglas ar Orffennaf 8fed.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.